**Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2024-25**

Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Awdurdod Harbwr Ceredigion lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2025.

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi nac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Caiff y datganiad o gyfrifon ei baratoi, a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei lofnodi a'i ardystio pan fydd pwysau gwaith yn caniatáu.